# 1

# Dechrau eich Cyflogaeth

# 1. Dechrau cyflogaeth / swydd newydd

## Taflen cyngor i weithwyr

**Cofiwch ddefnyddio'r amlinelliad cynllun gweithredu i'ch helpu i wybod:**

- **Lle i fynd**
- **Pwy all helpu**
- **Pa addasiadau posib y byddwch ei angen yn y gweithle**

**Mae pobl wedi dweud wrthym yr hyn sydd wedi bod o help iddyn nhw yw:**

- Meddu ar wybodaeth sy'n gallu eu helpu i gynllunio a gwybod yr hyn sydd i'w ddisgwyl ganddyn nhw.
- Bod ag amser cyn ac ar ôl gwaith i drafod yr hyn sydd wedi digwydd y diwrnod hwnnw ac unrhyw bryderon neu ofidiau sydd ganddyn nhw.
- Cael amser i brosesu gwybodaeth a'r gallu i ofyn os nad ydyn nhw'n siŵr. Bydd yn helpu os byddwch yn gwybod pwy i ofyn iddyn nhw os nad ydych yn siŵr am rywbeth.
- Bod eich cyflogwr yn hyblyg ynghylch amseroedd egwyl fel bod modd mynd i'r ffreutur neu gymryd egwyl ar amseroedd tawel. Os ydi hyn yn eich poeni, siaradwch gyda'ch Cyflogwr.
- Bod â **'lle diogel'** i:
    - Ymlacio
    - Bwyta cinio
    - Treulio amser yno os ydi hi'n rhy swnllyd neu lachar
    - Cwrdd â chydweithwyr eraill i drafod diddordebau cyffredin.
    - Gweithio ar eu pennau hunain.

## Cyn i chi ddechrau'r swydd?

**Ar ôl i chi dderbyn eich swydd, mae'n amser dechrau paratoi ar gyfer eich rôl newydd.**

**Mae ymgyfarwyddo eich hun â'r adeilad yn gallu bod yn anodd, ond gallwch ofyn os fyddai'n bosib i chi ymweld â'r lle fwy nag unwaith cyn i chi ddechrau os byddai hynny o fudd i chi.**

*Rhowch gylch o amgylch eich ateb i'r cwestiwn*

**Fyddech chi'n hoffi ymweld ag adeilad eich gweithle cyn i chi ddechrau?** ................................ BYDDWN neu NA FYDDWN

*Rhowch gylch o amgylch eich ateb i'r cwestiwn*

**Ydych chi'n gwybod sut i drefnu ymweliad â'ch gweithle cyn i chi ddechrau?** ................. YDW neu NAC YDW

*Os mai NAC YDW yw'r ateb, ffoniwch neu anfonwch neges e-bost at y cyflogwr yn gofyn sut y mae trefnu ymweliad.*

*Rhowch gylch o amgylch eich ateb i'r cwestiwn*

**Ydych chi wedi ymweld â'r gweithle ac yn teimlo'n gyfforddus yn yr adeilad?** ....................................... YDW neu NAC YDW

## Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod sut yr ydych yn mynd i gyrraedd a gadael eich gwaith.

*Rhowch gylch o amgylch eich ateb i'r cwestiwn*

**Pa fath o gludiant y byddwch yn ei ddefnyddio i gyrraedd eich gwaith:**

- Car
- Cludiant cyhoeddus (trenau neu fysiau er enghraifft)
- Cludiant arbennig

*Atebwch yn y bocs*

**Faint o gloch sy'n rhaid i chi adael yn y bore?** .......................................

**Pa mor hir y mae'n ei gymryd i chi gyrraedd y gwaith?** .........................

**Pa amser fyddwch chi'n ei weithio yn y prynhawn?** ............................

**Faint mae'n ei gymryd i chi gyrraedd adref?** ........................................

## Cynllunio eich patrwm newydd

**Gall fod yn ddefnyddiol gwybod beth fydd eich patrwm newydd yn y gwaith cyn i chi ddechrau. I baratoi ar gyfer eich patrwm newydd yn y gwaith efallai y dymunwch ddechrau dilyn patrwm tebyg am ychydig wythnosau cyn i chi ddechrau.**

Llenwch yr amserlen gyffredinol isod i'ch helpu cynllunio strwythur eich diwrnod. Dydi'r amserlen hon ddim yn cynnwys eich dyletswyddau dyddiol tra yn y gwaith, dim ond patrwm dyddiol sylfaenol. Gallwch wastad gynnwys amserlen ar gyfer eich amser yn y gwaith hefyd.

| Gweithgaredd | Amser |
|---|---|
| Deffro | |
| Gadael y tŷ | |
| Dechrau teithio i hyfforddiant/gwaith | |
| Gwaith yn dechrau | |
| Amser Cinio | |
| Gwaith yn gorffen | |
| Dechrau teithio adref | |
| Cyrraedd adref | |
| Mynd i gysgu | |